


# Pam dyfrgwn?

- Dyfrgwn sydd uchaf ar y gadwyn fwyd mewn dŵr croyw ym Mhrydain, ac maent yn warchodwyr amgylcheddol h.y. maent yn amlygu bygythiadau (megis llygryddion, afiechydon ac arfilod) a allai effeithio ar iechyd bywyd gwyllt, anifeiliaid anwes, anifeiliaid eraill, a phobl.
- Mae dyfrgwn yn 'rhywogaeth ymbarél' da - mae gwarchod dyfrgwn a'u cynefin yn fodd o warchod ystod eang o rywogaethau eraill a fyddai'n cael eu hanwybyddu fel arall.
- Mae deddfau yn y DU a'r UE ar gyfer gwarchod dyfrgwn, â'r rheiny ar drengi hyd nes i'w poblogaeth dyfu'n ddiweddar. Maent o dan fygythiad o hyd oherwydd llygryddion ac afiechydon, llai o bysgod i'w bwyta, damweiniau car ac erledigaeth.




# Rhowch wybod am ddyfrgwn wedi marw!

 Lloegr  
**03708 506 506**  
(Asiantaeth yr Amgylchedd)

 Cymru  
**0300 065 3000**  
(Cyfoeth Naturiol Cymru)

 Yr Alban  
**01471 822 847**  
(Cronfa Ryngwladol ar gyfer Goroesiad Dyfrgwn)

 @Otter\_Project

 Prosiect Dyfrgwn  
Prifysgol Caerdydd



[www.caerdydd.ac.uk/Otter-project](http://www.caerdydd.ac.uk/Otter-project)  
**Cymerwch ran / Rhowch Arian!**

\*Mae cynlluniau eraill sy'n casglu data/samplau o anifeiliaid gwyllt wedi marw i'w gweld yn:  
[www.projectsplatter.co.uk](http://www.projectsplatter.co.uk)



*Rhaglen Genedlaethol ar gyfer  
Monitro'r Amgylchedd, ers 1994*

**'Defnyddio dyfrgwn fel  
gwarchodwyr iechyd yr  
amgylchedd'**



Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen  
gofrestredig. Rhif 1136855

## Gweithgareddau Craidd

Bob blwyddyn, rydym yn casglu dros 200 o ddyfrgwn a gaiff eu canfod yn farw ledled Cymru, Lloegr a'r Alban. I allu gwneud hyn, rydym yn dibynnu ar bartneriaethau gyda rhwydwaith eang o sefydliadau amgylcheddol ac unigolion, sy'n ein hysbysu ac yn anfon y dyfrgwn atom.

Rydym yn cynnal prawf post-mortem trylwyr, yn cofnodi gwybodaeth allweddol megis rhywedd, oedran, a statws atgennedlu, yn ogystal ag unrhyw abnormaleddau. Rydym hefyd yn casglu amrywiaeth eang o samplau ar gyfer ein harchif. **Mae ein harchif yn bwysig gan ei fod yn ein caniatáu i ni gynnal ôl-ddadansoddiadau wrth i gwestiynau newydd gael eu gofyn neu ddiulliau ddatblygu, yn ogystal â phan mae arian ymchwil ar gael.**

Defnyddir data a samplau mewn ymchwil, gan gynnwys monitro llygryddion amgylcheddol, clefydau, a bywydeg dyfrgwn. Gwyddom o ble a phryd y casglwyd y dyfrgwn, felly gallwn archwilio amrywiadau gofodol a thueddiadau dros amser (e.e. mewn llygryddion neu afiechydon), tra bo gwybodaeth fiolegol sylfaenol (megis rhywedd ac oedran) yn ein cynorthwyo i ddeall yr amrywiadau mewn poblogaethau.

Ar gyfer pob dyfrgi a dderbynnir, anfonir adroddiad at y sawl a roddodd wybod am y dyfrgi, yn ogystal ag at sefydliadau amgylcheddol lleol. Dyma'r cam cyntaf sy'n amlygu unrhyw arwydd o salwch yn y boblogaeth, ac mae hefyd yn tynnu sylw at leoedd lle mae llawer o fywyd gwyllt yn cael eu lladd ar y ffyrdd.

**Mae cael sampl mor fawr ar draws ardal daearyddol eang, a hynny dros gyfnod o ugain mlynedd, yn golygu bod Prosiect y Dyfrgwn yn adnodd cynyddol werthfawr ar gyfer gwaith monitro amgylcheddol.**

## Dyfrgwn fel gwarchodwyr

Gall profi meinweoedd dyfrgwn ein rhybuddio o lygryddion neu afiechydon yn yr amgylchedd.

**Llygredd:** Daw ein dŵr yfed o gronfeydd dŵr, sy'n cynnwys dŵr croyw a dŵr afonydd lle mae dyfrgwn yn byw. Drwy **fesur llygryddion ym meinweoedd dyfrgwn**, gallwn amlygu peryglon posibl i iechyd anifeiliaid a phobl a gweld ym mha feysydd y mae deddfau/rheolaeth wedi llwyddo, neu ble mae angen eu cryfhau.

Rydym wedi dod o hyd i gemegion gwrthdan gwenwynig mewn dyfroedd croyw yn y DU. Rydym wedi dangos y gall deddfwriaeth sy'n gwahardd neu'n lleihau llygryddion fod yn effeithiol - rydym yn aml yn dod o hyd i PCB (biffenyl polychlorinedig), pladdwyr organoclorin, a led (o betrol led), ond mae eu crynodiadau'n gostwng. Dros y blynyddoedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar halogion sy'n dod fwyfwy i'r amlwg, megis cynhyrchion fferyllol. Dyma un o'r materion sy'n peri'r pryder amgylcheddol mwyaf ledled y byd.



**Arfilod:** Mae dyfrgwn yn ysglyfaethwyr oportiwnistaidd, ac maent yn bwyta diet amrywiol. Golyga hynny eu bod yn agored i amrywiaeth o arfilod cyffredinol.

Drwy **sgrinio am arfilod**, deunw i ddeall systemau cryptig sydd fel arall yn anodd iawn i'w hastudio. Rydym wedi dangos bod llyngyr yng nghledren, *Toxoplasma gondii*, a throgod draenogod yn gyffredin ymysg dyfrgwn. Mae deall patrymau yn eu dosraniad yn ein helpu i ddeall peryglon posibl i iechyd anifeiliaid gwyllt ac anifeiliaid anwes, yn ogystal â phobl.

## Cadwraeth

Mae cadwraeth effeithiol yn dibynnu ar ddealltwriaeth glir o boblogaethau.

Mae ein hymchwil yn ateb cwestiynau sylfaenol ynghylch strwythur poblogaeth, diet ac atgennedlu. Mae hefyd yn mynd i'r afael â chwestiynau mwy diweddar hefyd megis sut mae dyfrgwn yn defnyddio arogl i gyfathrebu, a sut mae geneteg poblogaeth yn amrywio ar draws y DU.

Mewn cadwraeth fwy cymhwysol, mae'r gwaith sy'n ystyried manau cyffredin lle mae dyfrgwn yn marw, yn cael ei ddefnyddio fel canllaw ar gyfer camau lliniaru ar y ffyrdd (megis creu tanffyrdd ar gyfer bywyd gwyllt) gan leihau nifer y marwolaethau yn y dyfodol. **Gwaith allanol**

Mae dyfrgwn yn apelio, ac mae eu defnyddio yn ffordd effeithiol o amlygu pwysigrwydd gwarchod bywyd gwyllt a bygythiadau llygryddion cemegol.

Mae 'Colin', y dyfrgi sydd wedi'i wneud yn arbennig ar ein cyfer, wedi bod yn hynod boblogaidd gyda phlant ac oedolion fel ei gilydd. Rydym wedi datblygu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i gael ei rannu gydag ysgolion.

